**<u>Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 10fed Mehefin 2025 am 7.30pm yn Neuadd Dihewyd.</u>**

Cyn dechrau'r cyfarfod, cafwyd cyflwyniad gan PC Liz Jenkins. Soniodd y bydd yn ei rôl fel Plismones Bro yn ymuno â ni yn ein cyfarfodydd yn gyson o hyn ymlaen neu'n anfon adroddiad gydag ystadegau am rai vmaterion troseddol yn yr ardal. Nodydd dau achos o anghydfod rhwng cymdogion yn yr etholaeth a nifer o achosion o ddwyn offer garddio a fferm yn ardal Tregaron a'r cyffuniau. Rhanwyd nifer o daflenni gwybodaeth gan annog yr aelodau i gyslltu am unryw bryderon ynglŷn â gweithgaredd amheus. Diolchwy iddi am ei phresenoldeb ac am y wybodaeth ac edrychwn ymlaen at ei chroesawu eto.

**PRESENNOL**

Cynghorwyr : Haf Hughes (Cadeirydd) Gerwyn Owen, Lynford Thomas, Glyn Davies, Alan Henson, Hywel Ifans, Lyn Williams

Y Cyng. Sir Ceris Jones.

1. **YMDDIHEURIADAU** Y Cyng. Melinda Williams, Dan Evans.
2. PERSONOL
3. **DATGELU BUDDION PERSONOL – dim i'w datgelu**
4. **CADARNHAU COFNODION 13/05/25**
   Nodwyd bod enw'r Cyng. Melinda Williams wedi ei adael allan o'r rhestr y Cynghorwyr oedd yn bresennol a nodwyd hefyd bod dyddiad cadarnhau'r cofnodion yn nodi 2024 a nid 2025.
   Wedi cywiro'r uchod cynigiwyd bod y cofnodion yn gywir gan y Cyng.Glyn Davies gan y Cyng. Hywel Ifans a'u derbyniwyd yn unfrydol.
5. **MATERION YN CODI**

   **13.i. Arosfa Bws Pont Creuddyn.** Trafodwyd y mater gyda theulu Dremddu Hall a maent wedi penderfynu rhoi gwydr yn ôl yn yr arosfa. Byddant yn gwneud y gwaith cyn diwedd yr haf.
6. **14.a. Tyllau Dihewyd. (745119)** Darllenwyd ymateb gan y Cyngor Sir yn nodi y bydd y gwaith yn cael ei wneud ar sail blaenoriaeth ond i gysylltu eto os gwaethygir cyflwr yr hewl.

**14.c Bont Glanafon.** Derbyniwyd ymateb gan Jonathan Hughes, Technegydd Cyngor Sir Ceredigion yn cadarnhau y bydd yn gwneud ymchwiliad pellach i ddiogelwch y bont.

**14.**e. **Arwydd Croeso i Felinfac**h. (745139) . Derbyniwyd ymateb yn cadarnhau y bydd y gwaith yn cael ar sail blaenoriaeth ac o'r herwydd gall gymryd peth amser.

**6. ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**

**7.** i. Tal y Clerc Mai £239.62 (yn cynnwys 5% o Ebrill 2025).
ii. Yswiriant £576.40 wedi ei dalu.
iii. Lloyds Banc Ffioedd Cyfri'r Cadeirydd 10/4/25 – 9/5/25 £4.25
iv. Lloyds Banc Ffioedd Cyfrif Llanfihangel Ystrad 10/4/25 – 9/5/25 - £4.25

**8. RHODDION ELUSENNOL**

I. Eisteddfod Felinfach Datganwyd diddordeb gan Y Cyng. Haf Hughes a chwlbhawyd ffurflen Datgan Diddordeb.
II. **£125** Cynigwyiwyd gan y Cyng. Glyn Davies ac eiliwyd gan Y Cyng. Hywel Ifans.
III. Sandy Bear Datganwyd diddordeb gan Y Cyng. Hywel Ifans a chwlbhawyd ffurflen Datgan Diddordeb.
**£100.00** (Cynigiwyd gan Y Cyng. Alan Henson ac eiliwyd gan Y Cyng. Glyn Davies)
IV. CFFI Ceredigion £**100** (Cynigiwyd gan Y Cyng. Glyn Davies ac eiliwyd gan Y Cyng. Lynford Thomas)
V. CFFI Felinfach Datganwyd diddordeb gan Y Cyng. Haf Hughes a chwlbhawyd ffurflen Datgan Diddordeb.
VI. **£50.00** (Cynigiwyd gan Y Cyng. Glyn Davies ac eiliwyd gan Y Cyng. Lynford Thomas)
VII. Cerebal Palsy **£50.00** (Cynigiwyd gan Y Cyng. Lynford Thomas ac eiliwyd gan Y Cyng. Hywel Ifans)
VIII. Hahav **£50.00** (Cynigiwyd gan y Cyng. Lynford Thomas ac eiliwyd gan y Cyng. Hywel Ifans).

**9. CYNLLUNIO –** dim i'w drafod

**10. SEDDI GWAG.**

a. Sedd Dihewyd. Rhoddwyd un enwl gerbron i'w hystyried sef Mrs. Wendy Lloyd Lewis. Yn dilyn pleidlais gudd cyfetholwyd Mrs. Lewis yn unfrydol.

b. Sedd Llanfihangel Ystrad. Daeth dau enw gerbron i'w hystyried Yn dilyn pleidlais gudd etholwyd Mr. Euros Davies,

## 11. GOHEBIAETH

i. Derbyniwyd neges orchymyn Cadw Coed argyfer safle Eglwys San Mihangel, Ystrad.
ii. Darllenwyd llythyr oddi wrth Un Llais Cymru yn nodi pryderon am ddiffyg cynrychiolaeth yn y Pwyllgorau Ardal a chyfrifoldeb pob Cyngor yw sicrhau cynrychiolaeth briodol yn y cyfarfodydd.
iii. Derbyniwyd dyfarniad y Cyngor Sir i'r ymgynghoriad 20mya. Penderfynwyd na fydd arwydd golau electronig rhan-amser yn cael ei osod y tu fas i Ysgol Dyffryn Aeron ar sail y gost ac ysytyrir bod y twmpathau'n ddigonol i arafu traffig. Cadarnhawyd bod y Cyngor yn dal i aros i gontractwyr i gwblhau'r gwaith adfer i'r twmpathau.
iv. Nodwyd argymhellion terfynol y Comisiwn Ffiniau sydd wedi eu trosglwyddo i'r Cyngor Sir i'w hystyried.  Cydnabyddwyd bod ystyriaeth wedi ei roi i'n cynrychiolaeth gan fod yr argymhellion erbyn hyn yn cadw Llanfihangel Ystrad fel etholaeth (ond yn colli 2 gynghorydd) â Dihewyd fel Ward unigol â 3 chynghorydd a Llanwnnen yn ymuno'n Ward ychwanegol â3 chynghorydd.

## 12. UNRHYW FATER ARALL

a. Nododd y Cyng. Lyn Williams ei anfodlonrwydd gyda safon gwaith y Bwrdd Dŵrr ym mhentre Cribyn yn ddiweddar.  Penderfynwyd cysylltu â'r Bwrdd Dŵr ac anfon lluniau a dynwyd fel tystiolaeth.

b. Cododd Y Cyng. Gerwyn Owen bryder ynglŷn â lleoliad y bocs posto ym mhentre Dihewyd ac a fyddai'n bosib ei symud i man mwy diogel.  Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd cysylltu â'r Post Brenhinol i weld a ydi hi'n bolisi ganddynt i ystyried ceisiadau o'r fath.

c. Nododd y Cyng. Hywel Ifans bod cerrig mân ar ochor yr hewl ar waelod rhif Rafael yn creu amgylchiadau gyrru pergyflus.  Penderfynwyd cysylltu ag Adran y Priffyrdd.

## 13. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF

Gorffennaf 8fed yn Ysgol Cribyn